# Gosod a defnyddio meicroffonau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod a defnyddio meicroffonau i recordio sain. Mae'n debygol o fod yn berthnasol i gerddoriaeth ond fe all fod yn berthnasol i gyd-destunau eraill hefyd.

Mae'r safon yn ymwneud â chysylltu a gosod meicroffonau, gwahanu angenrheidiol, gwirio ansawdd sain cyn ac yn ystod defnyddio'r meicroffon, adnabod a datrys diffygion gyda'r cyfarpar neu ansawdd sain a safleoedd recordio ar gyfer defnyddio meicroffonau yn y dyfodol.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio, peirianwyr sain a rhaglenwyr sy'n gosod a defnyddio meicroffonau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cysylltu meicroffonau ac ategolion yn unol â'r gofynion diogelwch
2. pennu lleoliad a symudiadau priodol ar gyfer y meicroffonau ac ategolion yn ystod y broses gosod ac ymarfer
3.

gosod y meicroffonau gan sicrhau bod lefelau a nodweddion y sain yn bodloni'r safonau gofynnol

1. gofalu y caiff gwahanol rannau'r meicroffonau eu gwahanu fel sy'n ofynnol
2. cyflawni cydbwysedd rhwng ymarferoldeb safleoedd gwaith a disgwyliadau ar gyfer ansawdd sain sydd fwyaf effeithiol
3. cadarnhau gofynion prosesu signal a chynnal recordiadau prawf er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw ddiffygion sain amlwg
4. gosod y meicroffonau a chyfarpar eraill mewn mannau na fydd yn effeithio ar neu'n beryglus i gyfranwyr neu gydweithwyr
5. gwirio bod safleoedd terfynol y meicroffonau yn cyflawni'r recordiadau sain gorau posib o fewn cyfyngiadau'r lleoliad dan sylw
6. defnyddio meicroffonau i fonitro ansawdd y sain drwy gydol yr amser y byddwch yn eu defnyddio
7. datrys unrhyw broblemau, diffygion gyda chyfarpar a diffygion gyda'r sain sydd yn berthnasol i'ch maes arbenigedd chi
8. rhoi gwybod i'r bobl berthnasol am unrhyw broblemau gydag unrhyw wallau, diffygion, diffygion sain a sain gefndirol allanol na allwch eu datrys
9. cofnodi safleoedd y meicroffonau gan ddefnyddio dulliau priodol ichi fedru eu defnyddio dro ar ôl tro
10. ail-osod, diffodd a thacluso cyfarpar recordio pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau
11. cydymffurfio gyda'r gofynion iechyd a diogelwch bob amser

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion iechyd a diogelwch gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â gwrando'n ddiogel, trefniadau diogelu i atal colli clyw a gweithio gyda chyfarpar trydan
2. nodweddion a defnyddiau'r mathau o feicroffonau byddwch yn eu defnyddio gan gynnwys arwyddion sain ac ansawdd sain
3. ategolion priodol a sut i'w defnyddio
4. nodweddion y sain ofynnol, y ffynonellau sain, a pha newidiadau neu symudiadau mewn ffynonellau y dylech chi eu disgwyl
5. y gofynion ar gyfer gwahanu meicroffonau pan fyddwch yn gosod cyfarpar ger ffynonellau sain gan gynnwys sut i osod meicroffonau ger set ddrymiau safonol
6. effeithiau safleoedd meicroffonau a'r acwsteg ar y sain, gan gynnwys sut caiff 'lle da' offerynnau, lliw cyweiraidd ac adlewyrchiadau ystafell eu heffeithio gan safle a symudiadau'r meicroffonau
7. sut i werthuso'r gwahaniaethau rhwng synau meicroffonau mewn gwahanol safleoedd
8. y gwahaniaethau rhwng defnyddio meicroffonau ar gyfer darllediadau tu allan ac mewn stiwdio
9. sut i osod meicroffonau er mwyn lleihau sain neu sŵn diangen
10. y meini prawf gaiff ei ddefnyddio i werthuso sain
11. sut i ddefnyddio meicroffonau i fonitro ansawdd sain
12. pryd mae hi'n hanfodol i addasu disgwyliadau o ran ansawdd y sain a'r paramedrau i wneud hynny
13.

materion cydnawsedd rhwng mono, stereo, aml-sianel ac aml-drac yn y cyd-destun cyfredol

14.

dangosyddion gwallau, diffygion a methiannau a sut i'w rheoli a'u hatal

15.

pryd mae hi'n briodol ichi roi gwybod i bobl eraill am wallau a diffygion a sut i wneud hynny

Gosod a defnyddio meicroffonau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSS11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr Stiwdio, Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Peirianwyr Darllediadau tu allan / ôl gynhyrchu, Gweithredwyr Tapiau, Cyd- ysgrifenwyr, Rolau cefnogaeth dechnegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth, Peirianwyr Sain Fyw, Rhaglenwyr, Peirianwyr Golygu, Rheolwyr Cyfleusterau, Rheolwyr Cynnal a chadw |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Meicroffon; Ansawdd sain; Deunydd sain; Darllediadau tu allan; Sain; Cerddoriaeth; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth |